



## Choose your language

- English
- Cymraeg

## Follow us



[Back to news listings](#)

## Perlau Gwerthfawr; dyfodol gwell?

Saturday 1st September 2018

Yn dilyn llwyddiant apêl Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn i achub y glöyn byw Brith Perlog fis Rhagfyr y llynedd - 'Brith Perlog - Gobaith Newydd' - mae gwaith cynefin amserol a thywydd da'r Gwanwyn wedi helpu i sicrhau cynnydd mewn niferoedd yn y mwyafrif o safleoedd. Nawr ein bod wedi gallu sicrhau mwy o gyllid, a fydd y dyfodol yn well i'r rhywogaeth brin hon sydd o dan fygythiad?



Dros 20 mlynedd, mae Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn (YNM) wedi bod yn gweithio i ddiogelu ac ehangu'r boblogaeth o'r glöyn byw Brith Perlog sy'n weddill ym Maldwyn. Gyda thywydd gwael ac ansawdd y cynefin yn gostwng yn y blynyddoedd diweddar, roedd y brith perlog druan yn dioddef; roedd y boblogaeth yn mynd yn beryglus o isel.

Serch hyn, diolch i haelioni'r rheini a gyfrannodd at yr apêl ([#PBFANewHope](#)) gaeaf diwethaf, llwyddodd YNM i weithio ar dros 6 hectar o gynefin, i wella ei addasrwydd ar gyfer y glöyn byw. Pan gyrhaeddodd y glöyn byw, dilynwyd hynny gan wanwyn cynnes a sych; tywydd perffaith i'r pryfyn bregus i wasgaru ei adenydd; atgenhedlu a dodwy ei wyau. Roedd niferoedd y gloynnod byw llawn dwf wedi cynyddu ar y mwyafrif o safleoedd; ar ôl pum mlynedd olynol o ostyngiad, roedd hynny'n rhyddhad mawr!

Dyma lygedyn arbennig o obaith ar gyfer y Brith Perlog, ond mae angen rheolaeth gynefin reolaidd er mwyn cadw'r momentwm i fynd. Gyda hynny mewn golwg, mae YNM yn falch iawn bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gallu cyllido ein gwaith ar y rhywogaeth hon. Mae'r prosiect 'Perlau Gwerthfawr' bellach ar waith a bydd yn rhedeg tan fis Rhagfyr 2019. Bydd y cyllid hwn yn ein galluogi i wneud mwy o welliannau i gynefinoedd, parhau i fonitro'r rhywogaethau a chwilio am safleoedd newydd, yn ogystal â chynnwys cymunedau, ysgolion a gwirfoddolwyr lleol mewn gwaith i achub y glöyn byw.



**Dywedodd Linda Ashton, Uwch Swyddog Partneriaeth, Mynediad a Hamdden, Cyfoeth Naturiol Cymru:**

"Mae bywyd gwyllt yn rhan bwysig o'n hamgylchedd, ein hetifeddiaeth ac ein diwylliant yng Nghymru ac mae'n holl bwysig i gefnogi prosiectau fel hyn drwy ein rhaglen grantiau cymorth. Bydd y cyllid hwn yn rhoi llawer o gymorth i Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn i barhau â'i gwaith pwysig i amddiffyn y glöyn byw Brith Perlog fel y gallwn ei weld yn ffynnu yn y blynyddoedd sydd i ddod."

**Dywedodd Tammy Stretton, Swyddog Cadwraeth YNM:**

"Mae'n bosib dod o hyd i'r glöyn byw Brith Perlog mewn un ar ddeg safle yn unig dros Gymru gyfan, mae wyth ohonynt ym Maldwyn. Heb ein cymorth ni, nid oes amheuaeth y byddwn yn ei golli am byth. Gyda hynny mewn golwg, rydym yn hynod falch o fod wedi gallu sicrhau'r cyllid er mwyn cynorthwyo i ddiogelu'r rhywogaeth hon er mwyn i genedlaethau'r dyfodol allu ei mwynhau hefyd."

[Fwy o wybodaeth am y prosiect 'Perlau Gwerthfawr'](#). (yn Saesneg - bydd y Gymraeg yn dod yn fuan)



**Downloads**

Filename	File size
Perlau Gwerthfawr; dyfodol gwell? datganiad i'r wasg	430.44 KB

Tagged with: [Living Landscapes](#), [Species](#), [PBF](#)

[View page as PDF](#) [Printer friendly version](#) [Share](#)



[Accessibility](#) | [Privacy Policy](#) | [Contact Us](#)

**Protecting wildlife for the future** Charity Number/Rhif Elusen 512390, Company Number/Rhif Cwmni 1612249



Website by [Precedent](#)